# Chwarae a lles: o ymchwil i ymarfer

Cynhadledd genedlaethol Chwarae Cymru



**21 Tachwedd 2024**

Stadiwm Criced Gerddi Sophia, Caerdydd

# Chwarae a lles: o ymchwil i ymarfer

## Cynhadledd genedlaethol Chwarae Cymru

21 Tachwedd 2024 (9:00am - 4:00pm)
Stadiwm Criced Gerddi Sophia, Caerdydd

**Ymunwch â ni i ddathlu lansio ein cyhoeddiad diweddaraf, *Chwarae a lles*. Bydd y gynhadledd hon yn gyfle pwysig i ddarganfod mwy am yr adolygiad o ymchwil diweddar i chwarae plant, polisi cymdeithasol ac ymarfer, gyda ffocws ar Gymru. Y canlyniad yw cyhoeddiad arloesol a chyffrous a fydd yn dylanwadu ar sut yr ydym yn cynllunio ac yn darparu ar gyfer chwarae plant.**

Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn archwilio'r cysylltiadau rhwng digonolrwydd cyfleoedd chwarae a lles plant. Mae'n tynnu'n bennaf ar ymchwil academaidd, ar draws ystod o ddisgyblaethau, ond mae hefyd yn tynnu ar lenyddiaeth broffesiynol, eiriolaeth ac ymarferydd ble y bo'n briodol. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar rôl chwarae mewn lles plant, patrymau chwarae plant, a chefnogaeth oedolion i chwarae plant.

Bydd y gynhadledd yn rhoi cyfle i gynadleddwyr:

- glywed gan awduron yr adroddiad *Chwarae a lles*
- cymryd rhan mewn trafodaeth fywiog am yr ymchwil a sut y mae'n effeithio ar eich gwaith
- cyfrannu at weithdai astudiaethau achos sy'n ymwneud â themâu'r ymchwil, Adolygiad Gweinidogol o Chwarae a digonolrwydd cyfleoedd chwarae
- ystyried sut y gall tystiolaeth o'r adolygiad llenyddiaeth ddylanwadu ar eich gwaith gyda phlant.

**Nodyn:** i gael y gorau o'r gynhadledd hon, rydym yn argymell eich bod yn darllen crynodeb *Chwarae a lles* cyn mynychu'r digwyddiad. Mae'r crynodeb ar gael ar: www.chwarae.cymru/polisi-chwarae/ein-hymchwil

### Pwy ddylai fynychu?

Anelir y gynhadledd at: swyddogion digonolrwydd chwarae, ymarferwyr gofal plant a gwaith chwarae, aelodau etholedig mewn llywodraeth leol, a'r rhai sy'n ymwneud ag iechyd, addysg, teithio llesol, cynllunio tref a chymuned.

### Prisiau cynadleddwyr

Eleni rydym yn gallu cynnig gostyngiad yn y pris i gefnogwyr yng Nghymru.

- Cefnogwyr yng Nghymru: £75
- Cynadleddwyr o'r tu allan i Gymru: £100

### Prif siaradwyr

Bydd siaradwyr yn cynnwys:

- Dr Wendy Russell
- Ben Tawil, Ludicology
- Mike Barclay, Ludicology
- Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru
- Keith Towler, Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru.

**Bydd gwybodaeth am weithdai ar gael yn fuan.**

**I archebu eich lle ewch at: www.chwarae.cymru/digwyddiadau**